sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb

# Hysbysebu trwyddedau ar gyfer gwasanaethau amlblecs radio ar raddfa fach

## Rownd un

Dyddiad cyhoeddi: 1 Medi 2020
Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: 23 Tachwedd 2020

# Cynnwys

## Adran


1. Trosolwg 1

2. Y trwyddedau sy’n cael eu hysbysebu 2

3. Sut mae gwneud cais 50

# 1. Trosolwg

1.1 Yn y ddogfen hon, mae Ofcom yn cynnig rhoi trwyddedau i ddarparu gwasanaethau amlblecs radio ar raddfa fach, ac felly mae'n gwahodd ceisiadau am drwyddedau ar gyfer yr ardaloedd canlynol:

- Alnwick a Morpeth
- Basingstoke
- Bradford
- Caergrawnt
- Caerdydd
- Clevedon, Avonmouth a Filton
- Derry/Londonderry
- Dudley a Stourbridge
- Dwyrain Bryste, Mangotsfield a Keynsham
- Caeredin
- Caerwysg
- Glasgow
- Inverclyde
- Ynysoedd Scilly
- Kings Lynn
- Leeds
- Newcastle a Gateshead
- Gogledd Birmingham
- Norwich
- Caersallog
- Sheffield a Rotherham
- De Birmingham
- Tynemouth a South Shields
- Cymoedd Cymru
- Caer-wynt

1.2 Gwasanaeth amlblecs radio yw'r ffordd o ddarlledu gorsafoedd radio digidol DAB, a gall ddarparu tua deg gorsaf radio stereo (neu fwy os yw DAB+ yn cael ei ddefnyddio).

1.3 Mae'r broses o hysbysebu'r trwyddedau hyn yn rhan o Rownd Un rhaglen Ofcom ar gyfer trwyddedu DAB ar raddfa fach, fel sy'n cael ei nodi yn ein datganiad ar drwyddedu DAB ar raddfa fach, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill eleni. Cofiwch mai dim ond un drwydded amlblecs radio ar raddfa fach rydym ni'n bwriadu ei dyfarnu ar gyfer pob ardal y byddwn ni'n ei hysbysebu (hy, does gennym ni ddim bwriad i ddyfarnu trwyddedau amlblecs radio ar raddfa fach ychwanegol ar gyfer ardal benodol ar ôl i wasanaeth amlblecs radio ar raddfa fach gael ei drwyddedu gennym ni i wasanaethu'r ardal honno).

1.4 Mae trwyddedau amlblecs radio ar raddfa fach yn cael eu dyfarnu gan Ofcom mewn proses gystadleuol. Mae hyn yn golygu bod ceisiadau'n cael eu barnu yn erbyn meini prawf penodol, ac mae Ofcom yn dyfarnu pob trwydded i'r ymgeisydd y mae'n credu sy'n bodloni'r meini prawf orau.

1.5 Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau am y trwyddedau amlblecs radio ar raddfa fach sydd wedi'u rhestru uchod, yw **5pm ddydd Llun 23 Tachwedd 2020**. Y ffi ymgeisio na ellir ei had-dalu yw £500.

1.6 Mae Ofcom hefyd yn gwahodd ceisiadau gan ddarparwyr gwasanaethau rhaglenni posibl a fyddai'n dymuno darlledu gwasanaeth Rhaglenni Sain Digidol Cymunedol ('C-DSP') ar wasanaeth amlblecs radio ar raddfa fach y mae'r ddogfen hon yn hysbysebu trwydded ar ei gyfer.

# 2. Y trwyddedau sy'n cael eu hysbysebu

2.1 Mae'r adran hon yn cynnwys map ar gyfer pob trwydded amlblecs radio ar raddfa fach rydym ni'n ei hysbysebu yn Rownd Un. Mae'r map yn dangos yr ardal ddaearyddol neu'r ardal leol y bwriedir i'r drwydded ddarparu gwasanaeth ar ei chyfer, a thabl o ddata perthnasol ar gyfer ardal pob trwydded, gan gynnwys y ddarpariaeth i'r boblogaeth oedolion. Mae'r eirfa isod yn esbonio'r data yn y tablau hyn:

| | |
|---|---|
| **Poblogaeth ardal y drwydded** | Cyfanswm y boblogaeth oedolion (15 oed a hŷn) yn yr ardal y bwriedir i'r drwydded amlblecs a hysbysebir ei gwasanaethu (hy, y boblogaeth sydd o fewn y llinell goch ar y map). Daw hyn, a'r holl ddata arall am boblogaeth yn y tablau hyn, o ddata Cyfrifiad 2011. |
| **Maint ardal y drwydded** | Maint daearyddol, mewn cilometrau sgwâr, yr ardal y bwriedir i'r drwydded amlblecs a hysbysebir ei gwasanaethu (hy, yr ardal sydd o fewn y llinell goch ar y map). Mae'r ffigur yn cynnwys ardaloedd o fôr pan fydd hynny'n berthnasol. |
| **Capasiti C-DSP sydd wedi'i neilltuo** | Mae'r ddeddfwriaeth DAB ar raddfa fach yn mynnu bod Ofcom yn sicrhau bod trwyddedeion amlblecs radio ar raddfa fach yn neilltuo capasiti darlledu ar gyfer o leiaf dri gwasanaeth Rhaglenni Sain Digidol Cymunedol ('C-DSP'). Mae hefyd yn mynnu ein bod ni'n nodi'r capasiti hwn wrth hysbysebu trwydded amlblecs radio ar raddfa fach. Ar gyfer pob trwydded rydym ni'n ei hysbysebu, mae Ofcom wedi pennu nifer y gwasanaethau C-DSP y mae'n rhaid neilltuo capasiti ar eu cyfer. Gwnaed y penderfyniadau hyn ar sail y ffactorau sydd wedi'u nodi ym mharagraff 6.13 ein datganiad Trwyddedu DAB ar raddfa fach.<br><br>Rhaid i'r trwyddedai sicrhau bod o leiaf 36 o unedau capasiti[1] yn cael eu neilltuo ar gyfer pob gwasanaeth C-DSP. Er enghraifft, mae neilltuo capasiti ar gyfer tri gwasanaeth yn golygu ei bod yn rhaid neilltuo 108 o unedau capasiti (hy, 3 x 36 o unedau capasiti) at ddefnydd gwasanaethau C-DSP yn unig. Ni all trwyddedai'r amlblecs ddefnyddio'r capasiti hwn at unrhyw ddiben heblaw am gludo gwasanaethau radio sydd â thrwydded C-DSP. |
| **Gwasanaeth DAB lleol 1 (a phoblogaeth ardal y drwydded)** | Dyma enw gwasanaeth amlblecs radio lleol sy'n bodoli'n barod ac yn gorgyffwrdd â'r ardal a fydd yn cael ei gwasanaethu gan y gwasanaeth amlblecs radio ar raddfa fach y mae'r drwydded yn cael ei hysbysebu ar ei chyfer. Mae cyfanswm y boblogaeth |

[1] Mae 36 o unedau capasiti yn cyfateb i gyfradd ddidau DAB+ o 48 kdid yr eiliad ar lefel gwarchodaeth EEP3A.

| | |
|---|---|
| | oedolion (15 oed a hŷn) yn ardal drwyddedig y gwasanaeth amlblecs radio lleol sy'n bodoli'n barod (a all fod yn fwy na'r ardal y mae'n ei gwasanaethu drwy ei rwydwaith trawsyrru presennol) wedi'i nodi mewn cromfachau. Pan fydd mwy nag un gwasanaeth amlblecs radio lleol sy'n bodoli'n barod yn gorgyffwrdd ag ardal y drwydded amlblecs radio ar raddfa fach sy'n cael ei hysbysebu, mae rhesi ychwanegol o'r enw 'Gwasanaeth DAB lleol 2 [..]' a 'Gwasanaeth DAB lleol 3 [...]' yn cael eu cynnwys fel sy'n briodol. |
| **Gorgyffwrdd â phoblogaeth gwasanaeth DAB lleol 1 (a chanran)** | Y boblogaeth o oedolion (15 oed a hŷn) sydd o fewn ardal y drwydded amlblecs radio ar raddfa fach a hysbysebir, sydd hefyd o fewn ardal drwyddedig y gwasanaeth amlblecs radio lleol sy'n gorgyffwrdd a nodwyd uchod. Mae'r boblogaeth hon sy'n gorgyffwrdd yn cael ei darparu fel ffigur pendant, a hefyd fel canran o gyfanswm poblogaeth ardal drwyddedig y gwasanaeth amlblecs radio lleol, mewn cromfachau.<br><br>Mae maint y gorgyffwrdd rhwng ardaloedd trwyddedig gwasanaethau amlblecs radio lleol ac ar raddfa fach yn berthnasol, gan fod gofyniad cyfreithiol i gyfyngu gorgyffwrdd o'r fath i ddim mwy na 40% o'r boblogaeth yn ardal drwyddedig y gwasanaeth amlblecs radio lleol sy'n bodoli'n barod. |
| **Y bloc amledd a gynigir** | Yr amledd trawsyrru nominal sydd wedi cael ei ddyrannu i ardal y drwydded amlblecs radio ar raddfa fach a hysbysebir, ac yr ydym yn bwriadu ei ddefnyddio i ddarparu'r gwasanaeth. Dylai ymgeiswyr gofio mai amledd dros dro yw'r un a roddir yma, sy'n adlewyrchu bwriad Ofcom wrth hysbysebu. Fe allai'r amledd newid am resymau rheoli sbectrwm cyn i'r drwydded gael ei dyfarnu, ond rhaid i ymgeiswyr seilio eu ceisiadau ar yr amledd a nodwyd. |
| **Bloc ar y cyd a ddefnyddir gan ardaloedd trwydded DAB ar raddfa fach a/neu amlblecsau lleol** | Mae'n rhestru unrhyw wasanaethau amlblecs radio ar raddfa fach cyfagos a/neu unrhyw wasanaethau amlblecs radio lleol sy'n bodoli'n barod (neu arfaethedig) a allai rannu'r bloc amledd trawsyrru nominal sydd wedi'i nodi uchod.<br><br>Mae taenlen sy'n cynnwys dolenni at ddata ardal y drwydded a data poblogaeth ar gyfer yr ardaloedd yma sy'n defnyddio bloc ar y cyd ar gael yn: Cegnogi data technegol a dolenni ar gyfer lleoliadau y Rownd Gyntaf. Mae'r data hwn ar gael mewn Fformat Cyfnewid MapInfo, ac mae'n bosib ei fewngludo i becynnau meddalwedd system gwybodaeth ddaearyddol (GIS). Mae'r daenlen hefyd yn cynnwys dolenni at fapiau unigol ar |

| | |
|---|---|
| | gyfer pob ardal drwyddedig amlblecs radio lleol ac ar raddfa fach.<br><br>Mae’r wybodaeth am wasanaethau DAB sy’n defnyddio bloc ar y cyd yn berthnasol, gan fod cyfyngiadau ar gryfder y signal y gall gwasanaeth amlblecs radio ar raddfa fach ei osod yn ardal drwyddedig gwasanaeth amlblecs radio arall sy’n defnyddio’r un bloc amledd. Mae’r cyfyngiadau hyn ar gryfder y signal yn 38 dBµV/m yn achos ardaloedd trwyddedig amlblecsau radio ar raddfa fach eraill, a 29 dBµV/m pan fydd gwasanaethau amlblecs radio lleol yn defnyddio amleddau bloc ar y cyd. |
| **<Dolen at ddata ardal y drwydded>** | Dolen at ffeiliau data sy’n disgrifio ardal ddaearyddol y drwydded. Mae’r data hwn ar gael mewn Fformat Cyfnewid MapInfo, ac mae’n bosib ei fewngludo i becyn meddalwedd system gwybodaeth ddaearyddol (GIS). |
| **<Dolen> at ddata poblogaeth>** | Dolen at ffeiliau data sy’n cynnwys dosraniad y boblogaeth yn ardal y drwydded. Mae’r data hwn ar gael mewn Fformat Cyfnewid MapInfo, ac mae’n bosib ei fewngludo i becyn meddalwedd system gwybodaeth ddaearyddol (GIS). |

2.2 Mae pob trwydded amlblecs radio ar raddfa fach yn cael ei rhoi am gyfnod o saith mlynedd o’r dyddiad dechrau darlledu, gyda chyfnod adnewyddu o bum mlynedd arall ar gael. Rhaid i wasanaethau fod ar yr awyr o fewn 18 mis i ddyfarnu’r drwydded. Mae hyn yn ofyniad cyfreithiol yn y ddeddfwriaeth DAB ar raddfa fach, a dylai ymgeiswyr llwyddiannus ddisgwyl i Ofcom ei roi ar waith yn llym a mynd ati i ailhysbysebu trwydded os nad yw'r gwasanaeth wedi cael ei lansio o fewn 18 mis.

2.3 Ar yr un pryd ag y mae Ofcom yn hysbysebu trwyddedau Rownd Un ar gyfer amlblecs radio ar raddfa fach, rydym hefyd yn gwahodd ceisiadau gan ddarparwyr gwasanaethau rhaglenni posibl a fyddai’n dymuno darlledu gwasanaeth Rhaglenni Sain Digidol Cymunedol (‘C-DSP’) ar unrhyw un o’r gwasanaethau amlblecs radio ar raddfa fach y mae'r ddogfen hon yn hysbysebu trwydded ar eu cyfer. Nid oes dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cais am drwydded C-DSP i Ofcom. Felly, mae’r ffenestr ‘ar agor’ am y dyfodol agos i wneud cais am drwydded C-DSP ar gyfer darparu gwasanaeth ar unrhyw un o’r gwasanaethau amlblecs radio ar raddfa fach y mae trwydded yn cael ei hysbysebu ar eu cyfer yn Rownd 1. Dylai ymgeiswyr posibl am drwydded C-DSP hefyd nodi nad yw’r broses o wneud cais am drwydded C-DSP yn mynnu eu bod yn dewis un neu fwy o ymgeiswyr am y drwydded ar gyfer y gwasanaeth amlblecs radio DAB ar raddfa fach maen nhw’n dymuno ei ddefnyddio i ddarlledu. Os yw’r ymgeiswyr yn dymuno, gallant aros nes bydd y drwydded amlblecs radio ar raddfa fach wedi cael ei dyfarnu, cyn cyflwyno cais am drwydded C-DSP. Fodd bynnag, byddem yn cynghori ymgeiswyr amlblecs a darparwyr C-DSP posibl i gysylltu â’i gilydd yn gynnar yn y broses, oherwydd bydd angen cytundeb cludo ar ddarlledwr yn ogystal â thrwydded er mwyn cyrraedd ei gymuned darged.

2.4 Nid oes dim i rwystro ymgeisydd am drwydded amlblecs radio ar raddfa fach rhag gwneud cais hefyd am drwydded C-DSP i ddarlledu ar y gwasanaeth amlblecs radio ar raddfa fach hwnnw (hy, gall trwyddedai amlblecs radio ar raddfa fach ddarlledu gwasanaeth C-DSP ar ei amlblecs ei hun hefyd). Yn wir, un o'r materion y mae'r ddeddfwriaeth yn mynnu bod Ofcom yn eu hystyried wrth ddyfarnu trwydded amlblecs ar raddfa fach yw pa mor ddymunol yw dyfarnu i ymgeisydd sy'n cynnig darparu gwasanaeth C-DSP yn yr ardal honno, neu i ymgeisydd sydd – fel cyfranogwr – â rhywun sy'n cynnig gwneud hynny.

2.5 Mae'r ffurflenni cais (Rhan A a Rhan B) a'r nodiadau cyfarwyddyd cysylltiedig ar gyfer trwyddedau C-DSP ar gael ar wefan Ofcom.

2.6 Mae Ofcom yn cadw'r hawl i newid neu gywiro unrhyw ran o'r Hysbysiad hwn ar unrhyw adeg cyn y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau. Hefyd, mae unrhyw ddogfennau ychwanegol y cyfeirir atynt yn yr Hysbysiad hwn yn gallu cael eu newid o bryd i'w gilydd. Bydd unrhyw newidiadau, cywiriadau neu wybodaeth atodol o'r fath ar gael ar ein gwefan.

2.7 Nid yw'r wybodaeth yn yr Hysbysiad hwn yn cynnwys yr holl ofynion statudol a thrwyddedu, ac ni ddylid ei hystyried yn ddatganiad cyflawn ac awdurdodol o'r gyfraith. Nid yw unrhyw wybodaeth a roddwn ychwaith, boed yn yr Hysbysiad hwn neu mewn mannau eraill, yn awgrymu unrhyw farn gennym ynghylch rhagolygon masnachol y ceisiadau, nac y bydd gwasanaethau trwyddedig yn broffidiol.

2.8 Rhaid i ymgeiswyr wneud eu hasesiad annibynnol eu hunain ar ôl cael cyngor proffesiynol eu hunain, a chynnal unrhyw ymchwiliadau pellach o'r fath sy'n angenrheidiol yn eu barn nhw ar bob mater perthnasol.

2.9 Nid ydym yn rhoi unrhyw sylwadau na gwarant, yn benodol nac yn ymhlyg, mewn perthynas â'r wybodaeth yn yr Hysbysiad hwn (ynghyd â'r dogfennau eraill y cyfeirir atynt yn yr Hysbysiad hwn, yn ogystal ag unrhyw wybodaeth arall y byddwn ni'n ei chyhoeddi sy'n ymwneud â materion sy'n berthnasol i'r Hysbysiad hwn, gan gynnwys unrhyw wybodaeth y byddwn ni'n ei chyhoeddi mewn perthynas â'r ceisiadau a ddaw i law) nac mewn perthynas ag unrhyw wybodaeth ysgrifenedig neu lafar a roddir neu a ddarperir i unrhyw ymgeisydd posibl neu ei gynghorwyr proffesiynol. Felly ymwadir yn benodol ag unrhyw atebolrwydd, ac nid ydym felly'n derbyn atebolrwydd am unrhyw golledion, treuliau na difrod a ddioddefir neu a achosir fel arall o ganlyniad i baratoi unrhyw geisiadau ar sail neu yn unol â'r Hysbysiad hwn neu fel arall gan ddibynnu ar wybodaeth a nodir yma, boed ceisiadau'n cael eu cyflwyno ai peidio, a boed y ceisiadau'n llwyddiannus ai peidio.


# Alnwick a Morpeth




*(c) Hawlfraint y goron a hawliau bas data 2020 OS*

| | | | |
|---|---|---|---|
| Poblogaeth ardal y drwydded | 296,271 o oedolion | Maint ardal y drwydded | 1,591 km$^2$ |
| Capasiti C-DSP sydd wedi'i neilltuo | PUM gwasanaeth | | |
| Gwasanaeth DAB lleol 1 (a phoblogaeth ardal y drwydded) | Tyne a Wear (1,475,294) | Gorgyffwrdd â phoblogaeth gwasanaeth DAB lleol 1 (a chanran) | 296,271 (20.1%) |
| Y bloc amledd a gynigir | 8B | Bloc ar y cyd a ddefnyddir gan ardaloedd trwydded DAB ar raddfa fach a/neu amlblecsau lleol | Ffiniau'r Alban; Peterlee; Darlington & Bishops Auckland; Carlisle & Penrith. |
| data ardal y drwydded ar gyfer y rhanbarth hwn | | data'r boblogaeth ar gyfer y rhanbarth hwn | |

# Basingstoke




*(c) Hawlfraint y goron a hawliau bas data 2020 OS*

| | | | |
|---|---|---|---|
| Poblogaeth ardal y drwydded | 153,951 o oedolion | Maint ardal y drwydded | 621 km$^2$ |
| Capasiti C-DSP sydd wedi'i neilltuo: | TRI gwasanaeth | | |
| Gwasanaeth DAB lleol 1 (a phoblogaeth ardal y drwydded) | Berkshire a Gogledd Hampshire (905,061) | Gorgyffwrdd â phoblogaeth gwasanaeth DAB lleol 1 (a chanran) | 126,792 (14.0%) |
| Gwasanaeth DAB lleol 2 (a phoblogaeth ardal y drwydded) | Surrey (1,126,308) | Gorgyffwrdd â phoblogaeth gwasanaeth DAB lleol 2 (a chanran) | 27,159 (2.4%) |
| Y bloc amledd a gynigir | 7D | Bloc ar y cyd a ddefnyddir gan ardaloedd trwydded DAB ar raddfa fach a/neu amlblecsau lleol | Rhydychen; Gogledd Buckinghamshire; Gorllewin Llundain; Sussex - Gorllewin a Reigate; Sussex - De Orllewin; Southampton; Ringwood, |

<table>
<tr><td></td><td></td><td></td><td>Verwood &<br>Fordingbridge;<br>Warminster,<br>Devizes &<br>Trowbridge;<br>Swindon;<br>Witney.</td></tr>
<tr><td colspan="2">data ardal y drwydded ar gyfer y rhanbarth hwn</td><td colspan="2">Data’r boblogaeth ar gyfer y rhanbarth hwn</td></tr>
</table>

# Bradford




*(c) Hawlfraint y goron a hawliau bas data 2020 OS*

| | | | |
|---|---|---|---|
| Poblogaeth ardal y drwydded | 335,266 o oedolion | Maint ardal y drwydded | 166 km$^2$ |
| Capasiti C-DSP sydd wedi'i neilltuo: | SAITH gwasanaeth | | |
| Gwasanaeth DAB lleol 1 (a phoblogaeth ardal y drwydded) | Bradford (934,540) | Gorgyffwrdd â phoblogaeth gwasanaeth DAB lleol 1 (a chanran) | 306,258 (32.8%) |
| Gwasanaeth DAB lleol 2 (a phoblogaeth ardal y drwydded) | Leeds (1,152,218) | Gorgyffwrdd â phoblogaeth gwasanaeth DAB lleol 2 (a chanran) | 94,875 (8.2%) |
| Y bloc amledd a gynigir | 9A | Bloc ar y cyd a ddefnyddir gan ardaloedd trwydded DAB ar raddfa fach a/neu amlblecsau lleol | Catraeth; Ripon & Thirsk; Malton; West Hull; Scunthorpe; Sheffield & Rotherham; Glossop & Buxton; |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Oldham & Rochdale; Blackburn; Burnley & Darwen; Clitheroe. |
| data ardal y drwydded ar gyfer y rhanbarth hwn | | data'r boblogaeth ar gyfer y rhanbarth hwn | |

## Caergrawnt





*(c) Hawlfraint y goron a hawliau bas data 2020 OS*

| | | | |
|---|---|---|---|
| Poblogaeth ardal y drwydded | 135,718 o oedolion | Maint ardal y drwydded | 147 km$^2$ |
| Capasiti C-DSP sydd wedi'i neilltuo: | CHWE gwasanaeth | | |
| Gwasanaeth DAB lleol 1 (a phoblogaeth ardal y drwydded) | Caergrawnt (417,895) | Gorgyffwrdd â phoblogaeth gwasanaeth DAB lleol 1 (a chanran) | 135,718 (32.5%) |
| Y bloc amledd a gynigir | 8B | Bloc ar y cyd a ddefnyddir gan ardaloedd trwydded DAB ar raddfa fach a/neu amlblecsau lleol | Boston; Spalding & Skegness; Gogledd Norfolk; Norwich; Canol Suffolk; Colchester & Clacton; Chelmsford; Harlow; Luton; |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Wellingborough;<br>Corby & Kettering. |
| Data ardal y drwydded ar gyfer y rhanbarth hwn | | Data'r boblogaeth ar gyfer y rhanbarth hwn | |

# Caerdydd





*(c) Hawlfraint y goron a hawliau bas data 2020 OS*

| | | | |
|---|---|---|---|
| Poblogaeth ardal y drwydded | 420,302 o oedolion | Maint ardal y drwydded | 476 km$^2$ |
| Capasiti C-DSP sydd wedi'i neilltuo: | CHWE gwasanaeth | | |
| Gwasanaeth DAB lleol 1 (a phoblogaeth ardal y drwydded) | De-ddwyrain Cymru (1,514,815) | Gorgyffwrdd â phoblogaeth gwasanaeth DAB lleol 1 (a chanran) | 420,302 (27.7%) |
| Y bloc amledd a gynigir | 10D | Bloc ar y cyd a ddefnyddir gan ardaloedd trwydded DAB ar raddfa fach a/neu amlblecsau lleol | Gogledd Powys; Ludlow; Cleobury Mortimer & Tenbury Wells; Cheltenham & Tewksbury; Weymouth & Dorchester; |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Exeter;<br>Barnstaple & Bideford;<br>***Gorllewin & De Wilts LRMS.*** |
| Data ardal y drwydded ar gyfer y rhanbarth hwn | | Data'r boblogaeth ar gyfer y rhanbarth hwn. | |

# Clevedon, Avonmouth a Filton





*(c) Hawlfraint y goron a hawliau bas data 2020 OS*

| | | | |
|---|---|---|---|
| Poblogaeth ardal y drwydded | 308,353 o oedolion | Maint ardal y drwydded | 364 km$^2$ |
| Capasiti C-DSP sydd wedi'i neilltuo: | SAITH gwasanaeth | | |
| Gwasanaeth DAB lleol 1 (a phoblogaeth ardal y drwydded) | Bryste a Chaerfaddon (905,061) | Gorgyffwrdd â phoblogaeth gwasanaeth DAB lleol 1 (a chanran) | 308,353 (34.1%) |
| Y bloc amledd a gynigir | 12D | Bloc ar y cyd a ddefnyddir gan ardaloedd trwydded DAB ar raddfa fach a/neu amlblecsau lleol | Shaftesbury & Blandford Forum;<br>Yeovil;<br>Taunton;<br>Tiverton;<br>***Reading & Basingstoke LRMS;*** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | ***Canol a Gorllewin Cymru; LRMS; Coventry LRMS.*** |
| Data ardal y drwydded ar gyfer y rhanbarth hwn | | Data'r boblogaeth ar gyfer y rhanbarth hwn | |

# Derry/Londonderry




*(c) Hawlfraint y goron a hawliau bas data 2020 OS*

| | | | |
|---|---|---|---|
| Poblogaeth ardal y drwydded | 106,085 o oedolion | Maint ardal y drwydded | 1,075 $km^2$ |
| Capasiti C-DSP sydd wedi'i neilltuo: | PEDWAR gwasanaeth | | |
| Gwasanaeth DAB lleol 1 (a phoblogaeth ardal y drwydded) | Gogledd Iwerddon (1,448,895) | Gorgyffwrdd â phoblogaeth gwasanaeth DAB lleol 1 (a chanran) | 106,085 (7.3%) |
| Y bloc amledd a gynigir | 11C | Bloc ar y cyd a ddefnyddir gan ardaloedd trwydded DAB ar raddfa fach a/neu amlblecsau lleol | Kintyre;<br>Islay & Jura;<br>Ballymena;<br>Belfast & Lisburn;<br>Armagh. |
| Data ardal y drwydded ar gyfer y rhanbarth hwn | | Data'r boblogaeth ar gyfer y rhanbarth hwn | |

# Dudley a Stourbridge





*(c) Hawlfraint y goron a hawliau bas data 2020 OS*

| | | | |
|---|---|---|---|
| Poblogaeth ardal y drwydded | 401,667 o oedolion | Maint ardal y drwydded | 202 km$^2$ |
| Capasiti C-DSP sydd wedi'i neilltuo: | PEDWAR gwasanaeth | | |
| Gwasanaeth DAB lleol 1 (a phoblogaeth ardal y drwydded) | Birmingham (2,012,043) | Gorgyffwrdd â phoblogaeth gwasanaeth DAB lleol 1 (a chanran) | 356,926 (17.7%) |
| Gwasanaeth DAB lleol 2 (a phoblogaeth ardal y drwydded) | Wolverhampton ac Amwythig (1,317,388) | Gorgyffwrdd â phoblogaeth gwasanaeth DAB lleol 2 (a chanran) | 298,058 (22.6%) |
| Y bloc amledd a gynigir | 9C | Bloc ar y cyd a ddefnyddir gan ardaloedd trwydded DAB ar raddfa fach a/neu amlblecsau lleol | Derby; Stoke & Newcastle; Leicester; Loughborough & Coalville; Coventry; Leamington Spa & Stratford-upon- |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Avon; Cheltenham & Tewkesbury; Sir Fynwy; De Powys; Gogledd Powys |
| Data ardal y drwydded ar gyfer y rhanbarth hwn | | Data'r boblogaeth ar gyfer y rhanbarth hwn | |

# Dwyrain Bryste, Mangotsfield a Keynsham





*(c) Hawlfraint y goron a hawliau bas data 2020 OS*

| | | | |
|---|---|---|---|
| Poblogaeth ardal y drwydded | 321,758 o oedolion | Maint ardal y drwydded | 255 km$^2$ |
| Capasiti C-DSP sydd wedi'i neilltuo: | SAITH gwasanaeth | | |
| Gwasanaeth DAB lleol 1 (a phoblogaeth ardal y drwydded) | Bryste a Chaerfaddon (905,061) | Gorgyffwrdd â phoblogaeth gwasanaeth DAB lleol 1 (a chanran) | 321,758 (35.6%) |
| Y bloc amledd a gynigir | 7D | Bloc ar y cyd a ddefnyddir gan ardaloedd trwydded DAB ar raddfa fach a/neu amlblecsau lleol | Gloucester; Cirencester; Swindon; Salisbury; Shaftesbury & Blandford Forum; Yeovil; Bridgewater; Penybont; |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Aberhonddu;<br>Sir Fynwy. |
| Data ardal y drwydded ar gyfer y rhanbarth hwn | | Data'r boblogaeth ar gyfer y rhanbarth hwn | |


# Caeredin




*(c) Hawlfraint y goron a hawliau bas data 2020 OS*

| | | | |
|---|---|---|---|
| Poblogaeth ardal y drwydded | 439,875 o oedolion | Maint ardal y drwydded | 375 km$^2$ |
| Capasiti C-DSP sydd wedi'i neilltuo: | CHWE gwasanaeth | | |
| Gwasanaeth DAB lleol 1 (a phoblogaeth ardal y drwydded) | Caeredin (1,266,453) | Gorgyffwrdd â phoblogaeth gwasanaeth DAB lleol 1 (a chanran) | 439,875 (34.7%) |
| Y bloc amledd a gynigir | 9B | Bloc ar y cyd a ddefnyddir gan ardaloedd trwydded DAB ar raddfa fach a/neu amlblecsau lleol | Perth; Arbroath; Arnoustie & Montrose; Ffiniau'r Alban; Lanarkshire; Glasgow. |
| Data ardal y drwydded ar gyfer y rhanbarth hwn | | Data'r boblogaeth ar gyfer y rhanbarth hwn | |

# Caerwysg





*(c) Hawlfraint y goron a hawliau bas data 2020 OS*

| | | | |
|---|---|---|---|
| Poblogaeth ardal y drwydded | 130,161 o oedolion | Maint ardal y drwydded | 452 km$^2$ |
| Capasiti C-DSP sydd wedi'i neilltuo: | PEDWAR gwasanaeth | | |
| Gwasanaeth DAB lleol 1 (a phoblogaeth ardal y drwydded) | Caerwysg, Torbay a Gogledd Dyfnaint (704,183) | Gorgyffwrdd â phoblogaeth gwasanaeth DAB lleol 1 (a chanran) | 130,161 (18.5%) |
| Y bloc amledd a gynigir | 7D | Bloc ar y cyd a ddefnyddir gan ardaloedd trwydded DAB ar raddfa fach a/neu amlblecsau lleol | Gorllewin Gwlad yr Haf;<br>Taunton;<br>Weymouth;<br>Dorchester & Bridport:<br>South Hams;<br>Plymouth; |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Barnstaple & Bideford. |
| Data ardal y drwydded ar gyfer y rhanbarth hwn | | Data'r boblogaeth ar gyfer y rhanbarth hwn | |

## Glasgow




*(c) Hawlfraint y goron a hawliau bas data 2020 OS*

| | | | |
|---|---|---|---|
| Poblogaeth ardal y drwydded | 627,566 o oedolion | Maint ardal y drwydded | 304 km$^2$ |
| Capasiti C-DSP sydd wedi'i neilltuo: | WYTH gwasanaeth | | |
| Gwasanaeth DAB lleol 1 (a phoblogaeth ardal y drwydded) | Glasgow (1,888,146) | Gorgyffwrdd â phoblogaeth gwasanaeth DAB lleol 1 (a chanran) | 627,566 (33.2%) |
| Y bloc amledd a gynigir | 8B | Bloc ar y cyd a ddefnyddir gan ardaloedd trwydded DAB ar raddfa fach a/neu amlblecsau lleol | Perth; Glenrothes & Kirkcaldy; Caeredin; Midlothian; Girvan & Cumnock; Ayr; Troon & Irvine; |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Kintyre, Islay & Jura. |
| Data ardal y drwydded ar gyfer y rhanbarth hwn | | Data'r boblogaeth ar gyfer y rhanbarth hwn | |

## Inverclyde





*(c) Hawlfraint y goron a hawliau bas data 2020 OS*

| | | | |
|---|---|---|---|
| Poblogaeth ardal y drwydded | 142,526 o oedolion | Maint ardal y drwydded | 746 km$^2$ |
| Capasiti C-DSP sydd wedi'i neilltuo: | TRI gwasanaeth | | |
| Gwasanaeth DAB lleol 1 (a phoblogaeth ardal y drwydded) | Glasgow (1,888,146) | Gorgyffwrdd â phoblogaeth gwasanaeth DAB lleol 1 (a chanran) | 142,292 (7.5%) |
| Y bloc amledd a gynigir | 9B | Bloc ar y cyd a ddefnyddir gan ardaloedd trwydded DAB ar raddfa fach a/neu amlblecsau lleol | Oban; Perth; Caeredin; Dunfermline & Kinross; Ayr; Troon & |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Irvine;<br>Girvan & Cumnock;<br>Ards Peninsula;<br>Larne,<br>Carrickfergus &<br>Newtown Abbey. |
| Data ardal y drwydded ar gyfer y rhanbarth hwn | | Data'r boblogaeth ar gyfer y rhanbarth hwn | |


# Ynysoedd Scilly




*(c) Hawlfraint y goron a hawliau bas data 2020 OS*

| | | | |
|---|---|---|---|
| Poblogaeth ardal y drwydded | 1,879 o oedolion | Maint ardal y drwydded | 496 km$^2$ |
| Capasiti C-DSP sydd wedi'i neilltuo: | TRI gwasanaeth | | |
| Gwasanaeth DAB lleol 1 (a phoblogaeth ardal y drwydded) | Cernyw a Plymouth (732,168) | Gorgyffwrdd â phoblogaeth gwasanaeth DAB lleol 1 (a chanran) | 1,879 (0.3%) |
| Y bloc amledd a gynigir | 8A | Bloc ar y cyd a ddefnyddir gan ardaloedd trwydded DAB ar raddfa fach a/neu amlblecsau lleol | Newquay; St Austell & Truro. |
| Data ardal y drwydded ar gyfer y rhanbarth hwn | | Data'r boblogaeth ar gyfer y rhanbarth hwn | |

# Kings Lynn




*(c) Hawlfraint y goron a hawliau bas data 2020 OS*

| | | | |
|---|---|---|---|
| Poblogaeth ardal y drwydded | 142,182 o oedolion | Maint ardal y drwydded | 1,719 km$^2$ |
| Capasiti C-DSP sydd wedi'i neilltuo: | TRI gwasanaeth | | |
| Gwasanaeth DAB lleol 1 (a phoblogaeth ardal y drwydded) | Norfolk (800,879) | Gorgyffwrdd â phoblogaeth gwasanaeth DAB lleol 1 (a chanran) | 130,998 (16.4%) |
| Gwasanaeth DAB lleol 2 (a phoblogaeth ardal y drwydded) | Peterborough (442,822) | Gorgyffwrdd â phoblogaeth gwasanaeth DAB lleol 2 (a chanran) | 11,184 (2.5%) |
| Y bloc amledd a gynigir | 9C | Bloc ar y cyd a ddefnyddir gan ardaloedd trwydded DAB ar raddfa fach a/neu amlblecsau lleol | Great Yarmouth & Lowestoft; Canol Suffolk; Ipswich & Felixstowe; Colchester & Clacton; Bedford; |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Corby & Kettering;<br>Newark-on-Trent;<br>Lincoln;<br>Grimsby. |
| Data ardal y drwydded ar gyfer y rhanbarth hwn | | Data'r boblogaeth ar gyfer y rhanbarth hwn | |

# Leeds





*(c) Hawlfraint y goron a hawliau bas data 2020 OS*

| | | | |
|---|---|---|---|
| Poblogaeth ardal y drwydded | 450,083 o oedolion | Maint ardal y drwydded | 185 km$^2$ |
| Capasiti C-DSP sydd wedi'i neilltuo: | SAITH gwasanaeth | | |
| Gwasanaeth DAB lleol 1 (a phoblogaeth ardal y drwydded) | Leeds (1,152,218) | Gorgyffwrdd â phoblogaeth gwasanaeth DAB lleol 1 (a chanran) | 450,083 (39.1%) |
| Y bloc amledd a gynigir | 8B | Bloc ar y cyd a ddefnyddir gan ardaloedd trwydded DAB ar raddfa fach a/neu amlblecsau lleol | Catraeth; Ripon & Thirsk; Malton; Dwyrain Hull; Scunthorpe; Sheffield & Rotherham; Glossop & Buxton; Oldham & |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Rochdale; Blackburn; Burnley & Darwen; Clitheroe. |
| Data ardal y drwydded ar gyfer y rhanbarth hwn | | Data'r boblogaeth ar gyfer y rhanbarth hwn | |

## Newcastle a Gateshead





*(c) Hawlfraint y goron a hawliau bas data 2020 OS*

| | | | |
|---|---|---|---|
| Poblogaeth ardal y drwydded | 446,252 o oedolion | Maint ardal y drwydded | 300 km$^2$ |
| Capasiti C-DSP sydd wedi'i neilltuo: | SAITH gwasanaeth | | |
| Gwasanaeth DAB lleol 1 (a phoblogaeth ardal y drwydded) | Tyne a Wear (1,475,294) | Gorgyffwrdd â phoblogaeth gwasanaeth DAB lleol 1 (a chanran) | 446,252 (30.2%) |
| Y bloc amledd a gynigir | 8A | Bloc ar y cyd a ddefnyddir gan ardaloedd trwydded DAB ar raddfa fach a/neu amlblecsau lleol | Ffiniau'r Alban; Middlesbrough & Redcar; Stockton-on-Tees; Catraeth; |

<table>
<tr><td></td><td></td><td></td><td>Ripon & Thirsk;<br>Carlisle & Penrith</td></tr>
<tr><td colspan="2">Data ardal y drwydded ar gyfer y rhanbarth hwn</td><td colspan="2">Data’r boblogaeth ar gyfer y rhanbarth hwn</td></tr>
</table>

# Gogledd Birmingham





*(c) Hawlfraint y goron a hawliau bas data 2020 OS*

| | | | |
|---|---|---|---|
| Poblogaeth ardal y drwydded | 598,040 o oedolion | Maint ardal y drwydded | 245 $km^2$ |
| Capasiti C-DSP sydd wedi'i neilltuo: | SAITH gwasanaeth | | |
| Gwasanaeth DAB lleol 1 (a phoblogaeth ardal y drwydded) | Birmingham (2,012,043) | Gorgyffwrdd â phoblogaeth gwasanaeth DAB lleol 1 (a chanran) | 598,040 (29.7%) |
| Gwasanaeth DAB lleol 2 (a phoblogaeth ardal y drwydded) | Wolverhampton ac Amwythig (1,317,388) | Gorgyffwrdd â phoblogaeth gwasanaeth DAB lleol 2 (a chanran) | 24,209 (1.8%) |
| Y bloc amledd a gynigir | 8A | Bloc ar y cyd a ddefnyddir gan ardaloedd trwydded DAB ar raddfa fach a/neu amlblecsau lleol | Congleton & Leek; Erewash; Nottingham; Coventry; Northampton; Banbury & Bicester; Cheltenham & |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Tewkesbury; Worcester; Ludlow, Cleobury & Tenbury Wells. |
| Data ardal y drwydded ar gyfer y rhanbarth hwn | | Data'r boblogaeth ar gyfer y rhanbarth hwn | |


# Norwich




*(c) Hawlfraint y goron a hawliau bas data 2020 OS*

| | | | |
|---|---|---|---|
| Poblogaeth ardal y drwydded | 299,519 o oedolion | Maint ardal y drwydded | 1,219 $km^2$ |
| Capasiti C-DSP sydd wedi'i neilltuo: | PEDWAR gwasanaeth | | |
| Gwasanaeth DAB lleol 1 (a phoblogaeth ardal y drwydded) | Norfolk (800,879) | Gorgyffwrdd â phoblogaeth gwasanaeth DAB lleol 1 (a chanran) | 117,645 (14.7%) |
| Y bloc amledd a gynigir | 12A | Bloc ar y cyd a ddefnyddir gan ardaloedd trwydded DAB ar raddfa fach a/neu amlblecsau lleol | Haverhill & Surroundings; Caergrawnt; Ely & March; ***Lincolnshire LRMS; Llundain II LRMS.*** |
| Data ardal y drwydded ar gyfer y rhanbarth hwn | | Data'r boblogaeth ar gyfer y rhanbarth hwn | |

# Caersallog





*(c) Hawlfraint y goron a hawliau bas data 2020 OS*

| | | | |
|---|---|---|---|
| Poblogaeth ardal y drwydded | 101,458 o oedolion | Maint ardal y drwydded | 942 $km^2$ |
| Capasiti C-DSP sydd wedi'i neilltuo: | TRI gwasanaeth | | |
| Gwasanaeth DAB lleol 1 (a phoblogaeth ardal y drwydded) | Swindon a Wiltshire (614,196) | Gorgyffwrdd â phoblogaeth gwasanaeth DAB lleol 1 (a chanran) | 88,694 (14.4%) |
| Gwasanaeth DAB lleol 2 (a phoblogaeth ardal y drwydded) | Bournemouth a Dorset (653,110) | Gorgyffwrdd â phoblogaeth gwasanaeth DAB lleol 2 (a chanran) | 11,963 (1.8%) |
| Gwasanaeth DAB lleol 3 (a phoblogaeth ardal y drwydded) | De Hampshire (1,203,463) | Gorgyffwrdd â phoblogaeth gwasanaeth DAB lleol 3 (a chanran) | 801 (0.1%) |
| Y bloc amledd a gynigir | 9A | Bloc ar y cyd a ddefnyddir gan ardaloedd trwydded | Swindon; Gogledd Berkshire & De Sir |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | DAB ar raddfa fach a/neu amlblecsau lleol | Rhydychen;<br>Basingstoke;<br>Alton;<br>Petersfield;<br>Haslemere & Bordon;<br>Portsmouth;<br>Yeovil;<br>Gogledd Ynys yr Haf;<br>Caerfaddon & Midsomer Norton;<br>Chippenham & Malmesbury |
| Data ardal y drwydded ar gyfer y rhanbarth hwn | | Data'r boblogaeth ar gyfer y rhanbarth hwn | |

# Sheffield a Rotherham





*(c) Hawlfraint y goron a hawliau bas data 2020 OS*

| | | | |
|---|---|---|---|
| Poblogaeth ardal y drwydded | 523,896 o oedolion | Maint ardal y drwydded | 395 $km^2$ |
| Capasiti C-DSP sydd wedi'i neilltuo: | SAITH gwasanaeth | | |
| Gwasanaeth DAB lleol 1 (a phoblogaeth ardal y drwydded) | De Swydd Efrog (1,416,988) | Gorgyffwrdd â phoblogaeth gwasanaeth DAB lleol 1 (a chanran) | 523,896 (37.0%) |
| Y bloc amledd a gynigir | 7D | Bloc ar y cyd a ddefnyddir gan ardaloedd trwydded DAB ar raddfa fach a/neu amlblecsau lleol | Wetherby & Harrogate; Dwyrain Hull; Grimsby; Newark-on-Trent; Nottingham; Erewash; |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Derby;<br>Glossop & Buxton;<br>Huddersfield. |
| Data ardal y drwydded ar gyfer y rhanbarth hwn | | Data'r boblogaeth ar gyfer y rhanbarth hwn | |

# De Birmingham





*(c) Hawlfraint y goron a hawliau bas data 2020 OS*

| | | | |
|---|---|---|---|
| Poblogaeth ardal y drwydded | 459,936 o oedolion | Maint ardal y drwydded | 294 km$^2$ |
| Capasiti C-DSP sydd wedi'i neilltuo: | SAITH gwasanaeth | | |
| Gwasanaeth DAB lleol 1 (a phoblogaeth ardal y drwydded) | Birmingham (2,012,043) | Gorgyffwrdd â phoblogaeth gwasanaeth DAB lleol 1 (a chanran) | 535,316 (26.6%) |
| Gwasanaeth DAB lleol 2 (a phoblogaeth ardal y drwydded) | Coventry (749,125) | Gorgyffwrdd â phoblogaeth gwasanaeth DAB lleol 2 (a chanran) | 17,862 (2.4%) |
| Y bloc amledd a gynigir | 7D | Bloc ar y cyd a ddefnyddir gan ardaloedd trwydded DAB ar raddfa fach a/neu amlblecsau lleol | Stoke & Newcastle; Derby; Erewash; Coventry; Leicester; Market Harborough; Northampton; Banbury & |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Bicester;<br>Cheltenham & Tewkesbury;<br>De Powys;<br>Gogledd Powys. |
| Data ardal y drwydded ar gyfer y rhanbarth hwn | | Data'r boblogaeth ar gyfer y rhanbarth hwn | |


# Tynemouth a South Shields




*(c) Hawlfraint y goron a hawliau bas data 2020 OS*

| | | | |
|---|---|---|---|
| Poblogaeth ardal y drwydded | 380,429 o oedolion | Maint ardal y drwydded | 214 km$^2$ |
| Capasiti C-DSP sydd wedi'i neilltuo: | PEDWAR gwasanaeth | | |
| Gwasanaeth DAB lleol 1 (a phoblogaeth ardal y drwydded) | Tyne a Wear (1,475,294) | Gorgyffwrdd â phoblogaeth gwasanaeth DAB lleol 1 (a chanran) | 380,429 (25.8%) |
| Y bloc amledd a gynigir | 9B | Bloc ar y cyd a ddefnyddir gan ardaloedd trwydded DAB ar raddfa fach a/neu amlblecsau lleol | Ffiniau'r Alban; Arfordir Swydd Efrog; Stockton-on-Tees; Darlington & Bishops Auckland; Carlisle & Penrith. |
| Data ardal y drwydded ar gyfer y rhanbarth hwn | | Data'r boblogaeth ar gyfer y rhanbarth hwn | |

## Cymoedd Cymru





*(c) Hawlfraint y goron a hawliau bas data 2020 OS*

| | | | |
|---|---|---|---|
| Poblogaeth ardal y drwydded | 410,007 o oedolion | Maint ardal y drwydded | 1,414 km$^2$ |
| Capasiti C-DSP sydd wedi'i neilltuo: | PUM gwasanaeth | | |
| Gwasanaeth DAB lleol 1 (a phoblogaeth ardal y drwydded) | De-ddwyrain Cymru (1,514,815) | Gorgyffwrdd â phoblogaeth gwasanaeth DAB lleol 1 (a chanran) | 405,107 (26.7%) |
| Gwasanaeth DAB lleol 2 (a phoblogaeth ardal y drwydded) | Canolbarth a Gorllewin Cymru (379,159) | Gorgyffwrdd â phoblogaeth gwasanaeth DAB lleol 2 (a chanran) | 4,900 (1.3%) |
| Y bloc amledd a gynigir | 9C | Bloc ar y cyd a ddefnyddir gan ardaloedd trwydded | Aberystwyth;<br>Ludlow;<br>Cleobury Mortimer & Tenbury Wells; |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | DAB ar raddfa fach a/neu amlblecsau lleol | Caerwrangon;<br>Caerloyw;<br>Cirencester;<br>Warminster; |
| Data ardal y drwydded ar gyfer y rhanbarth hwn | | Data'r boblogaeth ar gyfer y rhanbarth hwn | |

# Caer-wynt




| | | | |
|---|---|---|---|
| Poblogaeth ardal y drwydded | 76,112 o oedolion | Maint ardal y drwydded | 603 km$^2$ |
| Capasiti C-DSP sydd wedi'i neilltuo: | TRI gwasanaeth | | |
| Gwasanaeth DAB lleol 1 (a phoblogaeth ardal y drwydded) | De Hampshire (1,203,463) | Gorgyffwrdd â phoblogaeth gwasanaeth DAB lleol 1 (a chanran) | 75,327 (6.3%) |
| Gwasanaeth DAB lleol 2 (a phoblogaeth ardal y drwydded) | Berkshire a Gogledd Hampshire (905,496) | Gorgyffwrdd â phoblogaeth gwasanaeth DAB lleol 2 (a chanran) | 590 (0.1%) |
| Gwasanaeth DAB lleol 3 (a phoblogaeth ardal y drwydded) | Surrey (1,126,308) | Gorgyffwrdd â phoblogaeth gwasanaeth DAB lleol 3 (a chanran) | 195 (<0.1%) |
| Y bloc amledd a gynigir | 9C | Bloc ar y cyd a ddefnyddir gan ardaloedd trwydded DAB ar raddfa fach a/neu amlblecsau lleol | Berkshire; gogledd & de Swydd Rhydychen; Guildford & Woking; Brighton; Reading; Bournemouth & |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Boscombe;<br>Shaftesbury & Blandford Forum;<br>Warminster;<br>Devizes & Trowbridge;<br>Swindon. |
| Data ardal y drwydded ar gyfer y rhanbarth hwn | | Data'r boblogaeth ar gyfer y rhanbarth hwn | |

# 3. Sut mae gwneud cais

## Cyflwyno ffurflen gais a ffioedd

3.1 Wrth wneud cais am unrhyw un o'r trwyddedau amlblecs radio ar raddfa fach a hysbysebir yn y ddogfen hon, rhaid defnyddio'r ffurflen gais am drwydded amlblecs radio ar raddfa fach. Cofiwch fod y ffurflen gais wedi'i rhannu'n ddwy ran - 'Rhan A' (y byddwn ni'n ei chyhoeddi ar ein gwefan), a 'Rhan B' a fydd yn aros yn gyfrinachol. O ran yr ymgeiswyr sy'n dymuno gwneud cais - yn amodol ar y cyfyngiadau perchnogaeth - am fwy nag un drwydded amlblecs radio ar raddfa fach, bydd angen ffurflen gais ar wahân ar gyfer pob cais.

3.2 Cyn llenwi'r cais, mae'n *hanfodol* bod ymgeiswyr yn darllen y Nodiadau Canllaw ar drwyddedau amlblecs radio ar raddfa fach yn ofalus iawn. Yn ogystal â darparu rhagor o wybodaeth am y cwestiynau rydym yn eu gofyn yn y ffurflen gais, mae'r Canllawiau yn rhoi arweiniad manwl ar y drefn trwyddedu amlblecs DAB ar raddfa fach yn ei chyfanrwydd, gan gynnwys materion fel y cyfyngiadau perchnogaeth, y meini prawf asesu statudol a sut bydd Ofcom yn dehongli'r meini prawf hyn wrth asesu ceisiadau.

3.3 Y dyddiad cau ar gyfer ffurflenni cais am drwydded amlblecs radio ar raddfa fach, a dogfennau gofynnol eraill, yw **5pm ddydd Llun 23 Tachwedd 2020**. Dylai rhannau cyfrinachol y ffurflen gais, a'r rhannau nad ydyn nhw'n gyfrinachol, gael eu hanfon dros e-bost i: broadcast.licensing@ofcom.org.uk. Dylid labelu llinell pwnc yr e-bost yn glir fel hyn: "[Enw'r ymgeisydd] application for SSDAB mux licence: [ardal y drwydded]." Bydd y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yn cael ei orfodi'n llym, felly fe'ch cynghorir i gyflwyno eich cais mewn da bryd er mwyn caniatáu ar gyfer unrhyw broblemau posibl wrth ei ddanfon. Bydd e-bost awtomatig yn cael ei anfon gan y tîm Trwyddedau Darlledu i gydnabod bod y cais wedi cyrraedd.

3.4 Bydd angen talu ffi ymgeisio o **£500** ar gyfer pob cais am drwydded amlblecs radio ar raddfa fach a gyflwynir. Ni fydd modd ad-dalu'r ffi hon mewn unrhyw amgylchiadau. Rhaid i daliadau trosglwyddiad banc electronig gyrraedd cyfrif banc Ofcom bum diwrnod gwaith, ar yr hwyraf, ar ôl i Ofcom gael y ffurflen gais. Yn yr un modd, os ydych chi'n talu gyda siec, rhaid i ni dderbyn y siec o fewn pum diwrnod ar ôl i'r cais ein cyrraedd ni. Gallai peidio â chydymffurfio â'r gofynion hyn olygu bod y cais yn cael ei ystyried yn anghymwys. Mae'r 'adran Ffioedd' yn y Nodiadau Canllaw yn cynnwys yr holl fanylion ynghylch sut mae talu'r ffi ymgeisio.

## Y broses asesu

3.5 Bydd Ofcom yn asesu ceisiadau yn unol â'n dyletswyddau cyffredinol a'r meini prawf asesu statudol penodol (fel mae'r Canllawiau'n eu hatgynhyrchu ac yn ymhelaethu arnynt), ac ar sail y cynigion a gyflwynir yn y ffurflen gais. Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw sicrhau bod y cais a gyflwynir yn gyflawn, gyda phob cwestiwn wedi cael ei ateb (neu, lle bo'n briodol, wedi'i farcio fel cwestiwn 'Amherthnasol') a'r holl wybodaeth ychwanegol angenrheidiol (fel y

cynllun technegol) wedi cael ei darparu yn ychwanegol at y ffurflen gais. Ar ôl i'r cais ein cyrraedd ni, ni chaiff yr ymgeisydd wneud unrhyw newidiadau sylweddol i'r cais, na chyflwyno unrhyw ddeunyddiau newydd, heb gael cytundeb Ofcom. Ni fydd Ofcom yn cytuno ar unrhyw ddiwygiad y mae'n credu a fyddai'n annheg i unrhyw ymgeisydd arall sy'n gwneud cais am y drwydded.

3.6 Wrth asesu ceisiadau, mae'n bosibl y bydd Ofcom yn gofyn am eglurhad a/neu'n gofyn i'r ymgeisydd ymhelaethu ar gynigion mewn unrhyw gais, ac yn gofyn i'r ymgeisydd roi gwybodaeth ychwanegol i ni.

3.7 Bydd holl adrannau'r ffurflenni cais nad ydyn nhw'n gyfrinachol yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefan ar ôl y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau. Wrth asesu'r ceisiadau, gall Ofcom ystyried unrhyw sylwadau a ddaw i law gan y cyhoedd – gellir cyflwyno sylwadau i Ofcom am y ceisiadau a gyflwynir drwy anfon e-bost i smallscaleDAB@ofcom.org.uk.

3.8 Ein nod yw ystyried pob cais am y trwyddedau amlblecs radio ar raddfa fach a hysbysebir o fewn chwe mis i'w cyflwyno, ond mae hyn yn amodol, ymysg pethau eraill, ar nifer y ceisiadau a gyflwynir ar gyfer pob un o'r trwyddedau rydym wedi'u hysbysebu yn Rownd Un.

3.9 Ar ôl penderfynu dyfarnu trwydded a rhoi gwybod i'r ymgeiswyr, bydd Ofcom yn cyhoeddi'r prif ffactorau a arweiniodd at ein penderfyniad.